## Teithio Rhyngwladol - Adroddiad Awstralia Lee Waters

### Pwrpas ac amcanion y daith

Cymerais ran mewn taith siarad rhyngwladol fel gwestai Sefydliad Cynllunio a Rheoli Traffig Awstralia (AITPM) i rannu profiad Cymru o roi polisïau trafnidiaeth gynaliadwy ar waith.

Fi oedd y prif siaradwr yng nghynhadledd ryngwladol y Sefydliad yn Perth a chefais fynd i sawl dinas i gwrdd ag ymarferwyr trafnidiaeth a llunwyr polisi i drafod record y Senedd o basio cyfres o fesurau blaengar, gan gynnwys y Ddeddf Teithio Llesol, y terfyn cyflymder diofyn o 20 mya mewn ardaloedd adeiledig, a pholisi ffyrdd newydd Llywodraeth Cymru.



*Casgliad o'r gwahanol ddigwyddiadau siarad yr es i iddyn nhw yn Awstralia*

Heriais lunwyr polisi Awstralia i ystyried mesurau tebyg a thynnais sylw at fanteision niferus teithio llesol, megis gwell iechyd ac amgylchedd glanach. Pwysleisiais hefyd bwysigrwydd newid systemig mewn polisi trafnidiaeth, gan annog symud oddi wrth gynllunio sy'n canolbwyntio ar y car tuag at flaenoriaethu cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Roedd fy nhaith yn llwyfan ar gyfer rhannu profiadau Cymru, cynnig awgrymiadau ar gyfer gwella, ac annog gweithredu mwy beiddgar ym maes newid hinsawdd.

### Ymrwymiadau Siarad

Yn Sydney, siaradais mewn fforwm cyhoeddus a gynhaliwyd gan Ddinas Sydney. Yn ystod y fforwm, rhannais lwyfan â Clover Moore, Arglwydd Faer Sydney, a Rob Stokes, cyn-Weinidog Trafnidiaeth Lesol De Cymru Newydd. Yn fy araith, pwysleisiais bwysigrwydd dewrder mewn gwleidyddiaeth i eirioli dros bolisïau trafnidiaeth gynaliadwy.

Rhoddais gyflwyniad hefyd i Aelodau Senedd Awstralia, a chefais gyfarfod ar wahân â'r Gweinidog Newid Hinsawdd ac Ynni ffederal, Chris Bowen AS, yr oedd ei hynafiaid yn hanu o Lanelli. Gwnaethom drafod targedau lleihau carbon a sut i weithredu diwygiadau trafnidiaeth ystyrlon.



*Cyfarfod â Chris Bowen AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd ac Ynni*

Ar ben hynny, siaradais mewn brecwast beicio a gynhaliwyd gan "grŵp cyfeillgarwch ar gyfer beicio" yn Senedd Awstralia. Roedd Phil Jones, a arweiniodd y gwaith o ddatblygu canllawiau dylunio teithio llesol yng Nghymru, hefyd yn bresennol yn y brecwast.

Roeddwn hefyd yn siaradwr blaenllaw yn y digwyddiad cyhoeddus "Streets for People: How Yarra’s 30 km/h zone can grow across Melbourne". Yn y digwyddiad, rhannais fy mhrofiad o weithredu'r terfyn cyflymder diofyn o 30 cilomedr yr awr (20 mya) yng Nghymru. Yn dilyn fy nghyflwyniad, cafwyd trafodaeth banel a sesiwn Holi ac Ateb gyda'r gwesteion Lauren Pearson, Ben Rossiter, a Sophie Wade. Trafodais sut y gall cyflymderau arafach greu amgylchedd mwy diogel a dymunol i gerddwyr a beicwyr, gan arwain at fanteision iechyd a chymdeithasol.

Fe wnes i hefyd feicio o gwmpas Sydney a rhai o'i maestrefi gyda Fiona Campbell, Rheolwr Strategaeth Feicio yn Ninas Sydney. Ers 15 mlynedd, mae Fiona wedi gweithio i wneud Sydney yn ddinas well i fyw ynddi trwy ei gwneud yn lle gwell ar gyfer beicio. Trafododd ei phrofiad o weithio yn adran strategaeth feicio’r ddinas a thynnodd sylw at rai o’i heriau mwyaf a’i llwyddiannau mwyaf.

Dywedodd Fiona mai un o'r heriau mwyaf iddi ei hwynebu yw newid barn pobl am feicio. I lawer o bobl, mae’n ffordd beryglus neu anghyfleus o deithio, ond mae Fiona yn credu bod addysg a’r seilwaith cywir yn gallu ei wneud yn brofiad diogel a phleserus i bawb. Hefyd, disgrifiodd wynebu rhwystrau gwleidyddol a diwylliant sy’n blaenoriaethu’r car ar gyfer teithio.


*Edrych dros Harbwr Sydney gyda Fiona Campbell, Rheolwr Strategaeth Feicio yn Ninas Sydney*

Hwyluswyd rhan o’r daith gan Aelodau o Seneddau Gwladol yr oeddwn wedi cyfarfod â nhw drwy Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad, sy’n dangos gwerth y rhwydwaith.